


# PECYN CAIS AM SWYDD

www.tancgc.gov.uk

# Rhagarweiniad

Annwyl Ymgeisydd,

Diolch am ddangos diddordeb mewn ymuno â Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Fy ngweledigaeth i ar gyfer ein Gwasanaeth yw iddo ‘I ddarparu’r gwasanaeth gorau posibl i gymunedau Canolbarth a Gorllewin Cymru.’ Er bod gennym hanes balch o gyflawni, rydym yn gwybod bod yna le i wella bob amser.

Pan fydd pobl yn meddwl am yrfa yn y Gwasanaeth Tân ac Achub, maen nhw’n tueddu meddwl am Ymladdwyr Tân yn ymateb i ddigwyddiadau brys, ond nid Diffoddwyr Tân yn unig sy’n gwneud canolbarth a gorllewin Cymru yn lle mwy diogel.

Y tu ôl i’r sefyllfa weithredol, mae gan y Gwasanaeth ystod eang o swyddi eraill mewn gwahanol adrannau sydd naill ai wedi’u lleoli mewn swyddfa neu yn ein gweithdai, ac rydym yn cyflogi pobl mewn swyddi proffesiynol, technegol a gweinyddol.

Heb fod gennym swyddogaethau cymorth corfforaethol yn eu lle er mwyn darparu’r systemau, y prosesau a thechnoleg, ni fyddai’r Gwasanaeth yn gallu darparu’r gwasanaeth gorau posibl i’n cymunedau.

Os ydych chi’n chwilio am yrfa gydag amrywiaeth, her a chyfleoedd i symud ymlaen, ynghyd â’r holl fanteision y byddech chi’n eu disgwyl gan sefydliad gwasanaeth cyhoeddus allweddol, yna beth am ystyried ymuno â ni yn un o’n swyddogaethau cymorth arbenigol neu weinyddol?

Diolch a phob lwc,





**Craig Flannery**
Y Prif Swyddog Tân

## EIN GWELEDIGAETH

I ddarparu'r Gwasanaeth gorau posibl i gymunedau canolbarth a gorllewin Cymru.

## OUR VISION

To deliver the best possible service for the communities of mid and west Wales.



#eichgtacgc #yourmawwfrs


# YMDDYGIADAU

- Bod yn Atebol
- Dangos Uniondeb
- Bod yn Foesegol
- Bod yn Barchus
- Bod yn Ddiduedd

# GALLUOGI

- Ein pobl
- Arweinyddiaeth a Rheolaeth: Llywodraethu, gwneud penderfyniadau a gwelliant parhaus.
- Cadernid Ariannol
- Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol
- Strategaeth Ddigidol a Thechnolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu
- Partneriaethau a Chydweithio

# Manylion am y Gwasanaeth




Crëwyd y Gwasanaeth ym 1996 gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994, yn dilyn uno Brigadau Tân Dyfed, Powys a Gorllewin Morgannwg. Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn gwasanaethu ardaloedd y Cynghorau Sir canlynol:

City and County of Swansea / Dinas a Sir Abertawe · Cyngor Castell-nedd Port Talbot / Neath Port Talbot Council · Cyngor Sir Gâr / Carmarthenshire County Council · Pembrokeshire County Council / Cyngor Sir Penfro · Powys

Mae'r Gwasanaeth yn cyfrif am bron i ddwy ran o dair o Gymru, gan gwmpasu ardal wledig yn bennaf sy'n 11,700 km² (4,500 milltir sgwâr), gyda 650km o arfordir. Mae'r Gwasanaeth, sydd â'i Bencadlys yng Nghaerfyrddin, yn cyflogi 1300 o staff, gydag ychydig dros 1100 o'r rheini wedi'u lleoli mewn un o 58 o orsafoedd ar draws tair Isadran. Mae gan y Gwasanaeth y trydydd teneurwydd poblogaeth uchaf yng Nghymru a Lloegr ac mae yna 900,000 o bobl yn byw oddi mewn i ardal ein Gwasanaeth. Mae'r nifer hwn yn cynyddu i dros 2 filiwn yn sgil twristiaeth yn ystod misoedd yr haf.

Dyma'r trydydd Gwasanaeth Tân ac Achub mwyaf yn ddaearyddol yn y Deyrnas Unedig, yn dilyn Gwasanaethau Tân ac Achub yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae hyn ynddo'i hun yn cyflwyno ystod o heriau gwahanol.

Ceir nifer o risgiau o wahanol fath oddi mewn i ardal y Gwasanaeth, yn amrywio o'r diwydiannau petrocemegol yn Aberdaugleddau, i'r risgiau sy'n gysylltiedig ag ardaloedd poblog iawn fel Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Mae yma hefyd gymuned ffermio fawr a llawer o ddiwydiannau ysgafn eraill ar hyd ac ar led yr ardal.

Mae'r rhain, ynghyd ag arfordir helaeth a dyfrffyrdd mewndirol, yn creu rhai o'r risgiau arbenigol sydd i'w cael oddi mewn i'r Gwasanaeth.



# Buddion

Mae gweithio i'r Gwasanaeth yn agor y drws i bortffolio cyfan o fuddion all wella eich ffordd o fyw nawr ac i'r dyfodol.

**Cyfraddau cyflog cystadleuol -**
wedi'u hadolygu'n ddiweddar i sicrhau tegwch ar draws pob rôl; gyda chynyddrannau blynyddol hyd at frig eich band cyflog, wrth i chi feithrin gwybodaeth a magu profiad.

**Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol -**
Cynllun pensiwn hael, gyda'r Gwasanaeth yn gwneud cyfraniad sylweddol (15.2% ar hyn o bryd) i ariannu eich ymddeoliad, yn ogystal â'r opsiwn i gynyddu eich buddion drwy brynu pensiwn ychwanegol neu fuddsoddi mewn Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGY).

**Gwyliau Blynyddol hael –**
26 diwrnod ynghyd â gwyliau banc, gan gynyddu hyd at 33 diwrnod ar ôl 5 mlynedd o gyflogaeth.

**Cynllun Hyblyg –**
Cyfle i ystwytho eich oriau gwaith er mwyn helpu ymdopi â bywyd y tu allan i'r gwaith.

Parcio am ddim ar y safle

Beicio i'r gwaith

Cynllun disgownt i staff

Iechyd a Lles

- Mynediad i gynllun disgownt Cerdyn Golau Glas
- Cynllun Aberthu Cyflog Prydlesu Ceir
- Cynllun benthyca offer TG Let's Connect
- Cyfleusterau ffreutur â chymhorthdal
- Clwb Chwaraeon a Chlwb Cymdeithasol
- Elusen Diffoddwyr Tân

# Amgylchedd Gwaith wedi'i Ffurfio gan ein Gwerthoedd

### Wedi ymrwymo i Gydraddoldeb ac Amrywiaeth -

Mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wrth wraidd yr hyn a wnawn fel Gwasanaeth ac maent yn werthoedd sydd wrth wraidd prosesau, arferion a diwylliant ein sefydliad.

Fel gwasanaeth, rydym wedi ymrwymo i ganfod, deall a dileu'r holl rwystrau sy'n atal mynediad at wasanaethau, gwybodaeth a chyflogaeth.

Ar hyn o bryd mae gan y Gwasanaeth nifer fach o rwydweithiau / fforymau gweithwyr mewnol ar waith, sy'n chwarae rhan weithredol yn y dasg o:

- Hyrwyddo materion ar gyfer gweithwyr;
- Cyfrannu at agenda amrywiaeth a chynhwysiant y sefydliad;
- Cynghori ar ddatblygu polisi;
- Gwella'r amgylchedd gwaith i'r gweithwyr

### Wedi ymrwymo i leihau ein Heffaith Amgylcheddol -

Rydym yn cydnabod bod ein gweithrediadau yn cael effaith ar yr amgylchedd byd-eang a lleol ac rydym wedi ymrwymo i leihau effeithiau amgylcheddol andwyol oddi mewn i gyfyngiadau ariannol, gweithredol ac adnoddau.

Yn ein ras i Statws Carbon Sero Net erbyn 2030, mae'r Gwasanaeth wedi pennu targedau iddo'i hun sy'n cyd-fynd â map llwybr Llywodraeth Cymru ar gyfer datgarboneiddio ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru.

Mae'r Gwasanaeth wedi sicrhau achrediad Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd Lefel 5, a hynny am yr 8fed flwyddyn yn olynol.

# #SERO30

# Proffil Swydd

Cyflog: £37,280- £ 39, 152
...........................................

**MANYLION AM Y SWYDD HON**

Prif bwrpas y swydd hon yw gorfodi deddfwriaeth diogelwch tân a'r rheoliadau cysylltiedig yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r Gwasanaeth.

**Mae 1 swydd wedi'i lleoli yng Nghaerfyrddin, Rhanbarth y Gorllewin**

**Mae 1 swydd wedi'i lleoli yn Nhreforys, Rhanbarth y De**

Gall Arolygydd Diogelwch Tân gynnal archwiliadau o'r holl leoliadau a reoleiddir gan gynnwys lleoliadau cymhleth a risg uchel. Fe allai, mewn rhai achosion, archwilio adeiladau ar sail egwyddorion peirianneg tân.

Gall Arolygydd Diogelwch Tân ymchwilio i achosion o dorri deddfwriaeth diogelwch tân ac adrodd arnynt ar gyfer cychwyn erlyniadau cyfreithiol. Maen nhw'n gymwys i gymryd camau gorfodi ffurfiol am dorri deddfwriaeth diogelwch tân.

Bydd gofyn iddyn nhw adrodd ar gyflwyniadau naratif a chynlluniau gan gyrff rheoli adeiladau a chynghori ar faterion diogelwch tân yn ymwneud ag adeiladu, dymchwel a/neu adnewyddu lleoliad a reoleiddir. Bydd gofyn iddyn nhw hefyd ymateb i ymgynghoriadau cynllunio fel rhan o ddiwygiadau i 'Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012' a 'Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016' a wneir gan Orchymyn Gweithdrefn Ddatblygu (Ymgyngoreion) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2021.

Rhaid i bob Arolygydd Diogelwch Tân sy'n ymgymryd â gwaith ar Fangre risg uchel gael ei asesu'n ffurfiol fel rhan o'r broses Sicrhau Ansawdd Mewnol (IQA).

Mae'r swydd-ddisgrifiad yn rhoi trosolwg o ofynion y rôl.

# Disgrifiad Swydd

| | |
|---|---|
| **TEITL Y SWYDD:** | Arolygwr Diogelwch Tân |
| **SAFLE/RÔL:** | Gradd 8 |
| **CYFEIRNOD Y SWYDD:** | |
| **LLEOLIAD:** | Adran diogelwch tân |
| **YN GYFRIFOL I:** | Rheolwr diogelwch tân |
| **PRIF DDIBEN Y SWYDD:** | Cefnogi swyddogaeth weinyddol y Rhanbarth. |

| ATODLEN O GYFRIFOLDEBAU | YN GYFRIFOL I |
|---|---|
| Arwain y weledigaeth Diogelwch Tân, gan gynnwys modelu rôl cadarnhaol ac arweinyddiaeth tîm, gan gymryd rôl weithredol wrth ymgorffori'r Model Gweithredu Diogelwch Tân yn llwyddiannus | Rheolwr diogelwch tân |
| Hyrwyddo parch, uniondeb, ymddiriedaeth, gonestrwydd a thegwch o fewn y sefydliad ac wrth ddarparu gwasanaethau | Rheolwr diogelwch tân |
| Cwblhau'r holl adroddiadau angenrheidiol, hysbysiadau cyfreithiol, cofnodi T.G a gweinyddiaeth | Rheolwr diogelwch tân |
| Mynd i wrandawiadau yn Llys yr Ynadon a Llys y Goron, yn unol ag achosion yn ymwneud â Gorfodi Gwasanaeth a chamau cyfreithiol | Rheolwr diogelwch tân |
| Mynd i gyfarfodydd mewnol ac allanol pan fyddan nhw'n cael eu henwebu i wneud, a rhoi adborth priodol i reolwyr a chydweithwyr | Rheolwr diogelwch tân |
| Ymateb i ymgynghoriadau statudol ac anstatudol ac ymgymryd ag unrhyw ymweliadau cyn neu ar ôl sy'n ffurfio rhan o'r ymgynghoriad; | Rheolwr diogelwch tân |
| Ymchwilio i gwynion, ymholiadau a materion eraill sy'n ymwneud â diogelwch tân ac ymateb iddynt | Rheolwr diogelwch tân |
| Rhoi cyngor ac arweiniad yn ôl yr angen a gwneud argymhellion i gefnogi penderfyniadau | Rheolwr diogelwch tân |
| Rhoi hyfforddiant, datblygiad, mentora ac asesiadau i bersonél y Gwasanaeth, gan gynnwys y rheini o fewn yr adran; | Rheolwr diogelwch tân |
| Gweithredu fel pwynt cyswllt ar gyfer lleoliad Gwasanaeth enwebedig; | Rheolwr diogelwch tân |

| | |
|---|---|
| Blaenoriaethu a rheoli llwyth gwaith gan sicrhau bod terfynau amser yn cael eu bodloni; | Rheolwr diogelwch tân |
| Adrodd i'r Rheolwyr Diogelwch Tân Rhanbarthol a chymryd cyfarwyddyd ganddynt a/neu unrhyw unigolyn sydd wedi'i enwebu; | Rheolwr diogelwch tân |
| Defnyddio a chynnal systemau meddalwedd a chronfeydd data i helpu i sicrhau bod cofnodion cywir yn cael eu coladu a bod ystadegau'n cael eu cynhyrchu'n gywir; | Rheolwr diogelwch tân |
| Arwain, cysylltu a datblygu arferion ymgysylltu, gyda busnesau a rhanddeiliaid allweddol eraill i hyrwyddo diogelwch tân a sicrhau dealltwriaeth o anghenion | Rheolwr diogelwch tân |
| Ymrwymo i ddilyn cyrsiau hyfforddi preswyl ar draws y DU yn ôl yr angen; | Rheolwr diogelwch tân |
| Cydymffurfio â pholisïau cyffredinol y Gwasanaeth a'u hyrwyddo'n gadarnhaol; | Rheolwr diogelwch tân |
| Dangos rhinweddau arweinyddiaeth priodol a amlinellir yn Fframwaith Arweinyddiaeth Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân. | Rheolwr diogelwch tân |
| Gwneud gwaith sy'n gysylltiedig â chyflawni cyfrifoldebau statudol y sefydliad o dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974 a'r holl ddarpariaethau statudol, codau ymarfer, a pholisïau gwasanaeth perthnasol. | Rheolwr diogelwch tân |

| | |
|---|---|
| Rhaid datblygu a chynnal safonau cymhwysedd rheoleiddiol cyffredin ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n ymgymryd â gwaith rheoleiddio lleol, fel sy'n ofynnol gan God Rheoleiddwyr y Better Regulation Delivery Office (BRDO). | |
| Bydd gofyn ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus a'i arddangos, er mwyn cynnal, gwella ac ehangu eich gwybodaeth a'ch sgiliau eich hunain ac eraill yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r Gwasanaeth. | |

## GWASANAETH TÂN AC ACHUB CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU

## MANYLEB Y PERSON

| | |
|---|---|
| **TEITL SWYDD** | Arolygwr diogelwch tân |
| **LLEOLIAD** | Gorsaf Dân Treforys, Rhanbarth y Gogledd |
| **RHIF Y SWYDD** | |
| **GRADDFA** | 8 |
| **ADRAN** | Rhanbarth y Gogledd |
| **GWIRIAD GDG** | |

Sicrhewch eich bod yn mynd i'r afael â phob un o'r gofynion canlynol yn eich Ffurflen Gais gan y byddant yn cael eu defnyddio at ddibenion llunio rhestr fer. Dylech ddarparu tystiolaeth glir sy'n dangos eich bod yn cwrdd â phob maes yn seiliedig ar eich sgiliau, gwybodaeth, profiad a galluoedd sy'n berthnasol i'r swydd.

| Ffactor | Tystiolaeth | Hanfodol / Dymunol | Dull Asesu |
|---|---|---|---|
| **Cymwysterau** | Wedi cwblhau (neu'r gallu i gwblhau o fewn y cyfnod prawf) Diploma Lefel 4 o leiaf mewn Diogelwch Tân neu gymhwyster cyfatebol e.e. HNC, HND, Prentisiaeth Uwch neu Radd mewn Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig, Peirianneg Sifil neu Arolygu ac ati.<br><br>Cwblhau cymhwyster NEBOSH neu gyfwerth yn llwyddiannus (neu'r gallu i'w gwblhau'n llwyddiannus).<br><br>Cwblhau cymhwyster Rheoli'n Ddiogel IOSH neu gyfwerth yn llwyddiannus (neu'r gallu i'w gwblhau'n llwyddiannus o fewn y cyfnod prawf)<br><br>Trwydded yrru lawn a chyfredol<br><br>Cwblhau Diploma Lefel 5 mewn Dylunio Peirianneg Tân neu gymhwyster cyfwerth yn llwyddiannus (neu'r gallu i'w gwblhau'n llwyddiannus). | **Hanfodol***<br><br>Dymunol<br><br>**Hanfodol***<br><br>**Hanfodol***<br><br>Dymunol | Ffurflen Gais / Tystysgrifau |
| **Gwybodaeth** | Deall a chymhwyso egwyddorion deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch cysylltiedig â Thân<br><br>Ymwybyddiaeth o weithgareddau a swyddogaethau craidd y Gwasanaeth Tân ac Achub yn genedlaethol ac yn lleol<br><br>Gwybodaeth a/neu brofiad blaenorol o fewn sector neu swydd Diogelwch Galwedigaethol.<br><br>Profiad o ddelio â chyrff proffesiynol, sefydliadau ac adrannau awdurdod lleol | Dymunol<br><br>**Hanfodol***<br><br>Dymunol<br><br>Dymunol<br><br>Dymunol | Ffurflen Gais / Tystysgrifau |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Meddu ar ddealltwriaeth drylwyr o'r ddeddfwriaeth, codau, canllawiau a dogfennau ategol eraill sy'n sail i gydymffurfiaeth â mesurau diogelwch tân, a'u gorfodi, yn y DU<br><br>Arddangos dealltwriaeth drylwyr o weithdrefnau iechyd a diogelwch yn y gweithle a pharodrwydd i dderbyn cyfrifoldeb dros eich lles eich hun ac eraill.<br><br>Dangos ymagwedd ragweithiol sy'n blaenoriaethu tuag at adnabod risgiau tân, wrth gynllunio ac asesu ac wrth weithredu'r camau unioni a adnabuwyd<br><br>Arddangos gallu i gyfathrebu gwybodaeth yn effeithiol ac yn gywir mewn amrywiaeth o ddulliau<br><br>Dangos dealltwriaeth o'r angen am ddatblygiad proffesiynol parhaus, mesur perfformiad, arfarnu perfformiad a'r cynllun datblygu personol<br><br>Meddu ar wybodaeth ymarferol o'r Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005<br><br>Meddu ar ddealltwriaeth o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 | **Hanfodol***<br><br>**Hanfodol***<br><br>**Hanfodol***<br><br>**Hanfodol***<br><br>Dymunol<br><br>Dymunol | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Profiad** | Profiad o weinyddu swyddfa a derbynfa o ddydd i ddydd<br><br>Profiad o gymryd cofnodio<br><br>Profiad o ddelio ag aelodau o'r cyhoedd<br><br>Y gallu i weithio dan bwysau<br><br>Y gallu i weithio fel rhan o dîm<br><br>Y gallu i ymateb yn effeithiol wrth weithio i derfynau amser | **Hanfodol***<br><br>Dymunol<br><br>Dymunol<br><br>**Hanfodol***<br><br>**Hanfodol***<br>**Hanfodol*** | Ffurflen Gais / Tystysgrifau |
| **Sgiliau sy'n gysylltiedig â'r Swydd/Personol** | Yn gysylltiedig â'r swydd<br>Meddu ar agwedd hyblyg tuag at waith.<br><br>Meddu ar agwedd gadarnhaol tuag at ddysgu a datblygiad proffesiynol parhaus<br><br>Meddu ar agwedd hunan-gymhellol ragweithiol, wrth weithio fel rhan o dîm ac ar ei fenter/menter ei hun<br><br>Cydlynu eu gweithredoedd ag eraill trwy gynllunio a blaenoriaethu gwaith | **Hanfodol***<br><br>**Hanfodol***<br><br>**Hanfodol***<br><br>**Hanfodol*** | Ffurflen Gais / Tystysgrifau |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Dangos gallu i ddehongli, i asesu ac i werthuso gwybodaeth berthnasol o ffynonellau amrywiol a phrosesu'n gywir ac yn effeithiol er mwyn dod i benderfyniadau priodol.<br><br>Y gallu i feithrin perthnasau gwaith effeithiol ag unigolion a grwpiau mewnol ac allanol<br><br>Dangos y gallu i gynllunio a chynnal archwiliadau<br><br>Meddwl yn Feirniadol a bod ag agwedd resymegol, ddiduedd a threfnus tuag at ddatrys Problemau Cymhleth<br>Dangos y gallu i ddeall a chymhwyso ystod gynhwysfawr o sgiliau Cyfrifiadurol a TGCh, yn enwedig Rhaglenni Microsoft Office, megis Word, Excel,<br>PowerPoint, Teams.<br><br>Y gallu i flaenoriaethu gwaith a bodloni terfynau amser ac ymateb yn gadarnhaol o dan bwysau<br><br>Deall a derbyn y cyfrifoldeb i gymryd rhan, cyfrannu a hyrwyddo diwylliant teg a gwrth-wahaniaethol.<br><br>Dangos tystiolaeth o agwedd/arfer gwrth-wahaniaethol a diduedd<br><br>Meddu ar feddwl chwilfrydig, y gallu i wrando'n weithredol, dehongli a phrosesu gwybodaeth a dderbynnir.<br><br>Ymddangos yn bwyllog ac yn broffesiynol wrth weithio o dan bwysau mewn amgylchedd sy'n Wynebu'r Cyhoedd.<br><br>Parodrwydd i fynd i wrandawiadau ac i'r llys fel rhan o waith gorfodi'r Gwasanaeth a chamau cyfreithiol<br><br>Ymrwymiad i ddilyn cyrsiau hyfforddi preswyl ar draws y DU yn ôl yr angen<br><br>Y gallu i gynnal cyfrinachedd a chadw at ofynion GDPR mewn perthynas â'r holl weithgareddau | **Hanfodol***<br><br>**Hanfodol***<br><br>**Hanfodol***<br><br>**Hanfodol***<br><br>**Hanfodol***<br><br>**Hanfodol***<br><br>**Hanfodol***<br><br>**Hanfodol***<br><br>**Hanfodol***<br><br>**Hanfodol***<br><br>**Hanfodol***<br><br>**Hanfodol*** | |
| **Cyfathrebu** | Sgiliau Saesneg<br><br>Sgiliau Cymraeg<br><br>Meddu ar sgiliau cyfathrebu cryf yn ysgrifenedig ac ar lafar a'r gallu i gyfathrebu gwybodaeth dechnegol i bobl nad ydynt yn arbenigwyr<br><br>Dangos y gallu i fod yn gyfathrebwr effeithiol gydag ystod eang o randdeiliaid | **Hanfodol***<br><br>Dymunol<br><br>**Hanfodol*** | Ffurflen Gais / Tystysgrifau |

**Yn unol â gweithdrefn Recriwtio a Dethol y Gwasanaeth, mae angen datgeliad safonol fel isafswm ar gyfer pob rôl.**

**Bydd rhai rolau yn amodol ar lefelau uwch o wiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, yn dibynnu ar ddyletswyddau a chyfrifoldebau'r rôl, ac fel y'u dynodir gan y Pennaeth Rheoli neu'r Adran berthnasol.**

**Lle mae gofyniad wedi'i nodi am wiriad lefel uwch gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, nodir y lefel a'r cyfiawnhad ar gyfer hyn isod:**

**LEFEL:** ...Safon ........................................................................................................................................

**CYFIAWNHAD:**

**PARATOWYD:** **DYDDIAD ADOLYGU:**

# Sut i wneud cais

Dyddiad Cau: 26 Ionawr 2026

Mae'r wybodaeth a ddarperir ar y ffurflen gais yn wybodaeth allweddol a bydd yn cael ei defnyddio yn y broses o lunio rhestr fer. Mae'n bwysig felly bod y nodiadau canllaw isod yn cael eu dilyn wrth lenwi'r ffurflen gais. Bydd hyn yn sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol ar gael er mwyn gwneud penderfyniad ynghylch a fydd eich enw yn cyrraedd y rhestr fer ar gyfer cyfweliad. Bydd llunio'r rhestr fer yn cynnwys asesu'r manylion a ddarperir ar y ffurflen gais yn erbyn y meini prawf a amlinellir yn y Fanyleb Person a ddarperir.

Derbynnir ceisiadau mewn fformatau eraill pan fydd ymgeisydd yn cael anhawster i gwblhau'r ffurflen safonol o ganlyniad i anabledd.

## Beth fydd yn digwydd ar ôl i chi anfon eich cais?

Unwaith y byddwn wedi derbyn eich cais, byddwn yn gwahanu'r ffurflen monitro cyfle cyfartal na fydd yn rhan o'r broses ddethol ac yn anfon y ffurflen gais yn unig i'r adran sy'n llunio'r rhestr fer. Byddwn yn anfon cydnabyddiaeth o'i dderbyn at bob ymgeisydd.

Bydd eich cais wedyn yn cael ei asesu yn erbyn y meini prawf (mewn manyleb person) a bydd y panel sy'n llunio'r rhestr fer yn penderfynu a ellir eich cynnwys ar y rhestr fer.

Os na chaiff eich enw ei roi ar y rhestr fer ar gyfer cyfweliad, fe'ch hysbysir yn ysgrifenedig, fel arfer cyn pen chwe wythnos i'r dyddiad cau. Os nad ydych wedi clywed gennym erbyn hynny, cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda.

Os caiff eich enw ei gynnwys ar y rhestr fer ar gyfer cyfweliad, byddwch yn derbyn e-bost oddi wrthym cyn pen 2-3 wythnos i'r dyddiad cau fel arfer, yn nodi dyddiad, amser a lleoliad y cyfweliad. Bydd yr e-bost hefyd yn cynnwys manylion y profion asesu sydd i'w cynnal a bydd yn rhoi rhestr o'r ddogfennaeth y mae'n ofynnol i chi ei chario gyda chi, os yw'n berthnasol i'r rôl.

Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

www.tancgc.gov.uk